Swyddfa Ystadegau Gwladol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Defnydd Iaith

Cymraeg

HOLIADUR AR GYFER OEDOLION 16+

Y cyfwelydd i lenwi:

RHIF CYFEIRNOD: RHIF PERSON:

Yr holiadur i'w lenwi gan

Mae'r holiadur hwn yn trafod y Gymraeg. Hoffem wybod a ydych chi'n siarad Cymraeg, ac os felly pa mor aml, ble a phryd y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i fonitro ac i ddatblygu polisïau i gefnogi'r Gymraeg.

Bydd eich atebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol a'u defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig.
Cânt eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru a fydd yn dadansoddi ac yn cyhoeddi canlyniadau'r arolwg hwn. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi mewn unrhyw gyhoeddiad ar ganlyniadau'r arolwg hwn.

Am ragor o wybodaeth am sut y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth, ewch i:
www.llyw.cymru/ArolwgDefnyddIaith.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn, gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru ar 03000 256682 neu anfon neges e-bost at DataIaithGymraeg@llyw.cymru**

Anfonwch eich holiadur yn ôl yn yr amlen radbost a ddarperir, neu i'r cyfeiriad rhadbost ar ddiwedd yr holiadur.

Diolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

Glyn Jones
*Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru*

SAMPLE

**AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL AR GYFER LLENWI'R HOLIADUR HWN**

- <u>Y person a enwir ar y dudalen yma</u> ddylai lenwi'r holiadur.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus a thiciwch ✓ neu rhowch groes X yn y blwch i nodi eich ateb.
- Dim ond un blwch y bydd yn rhaid i chi roi croes ynddo fel arfer ond darllenwch y cwestiynau'n ofalus gan y bydd angen i chi ddewis mwy nag un blwch ar gyfer rhai o'r cwestiynau.
- Os byddwch yn rhoi tic neu groes yn y blwch anghywir neu yn newid eich meddwl, llenwch y blwch yn gyfan gwbl fel hyn [■] ac yna rhowch dic neu groes yn y blwch ateb cywir.
- Ar ôl i chi orffen, treuliwch ryw funud neu ddau yn sicrhau eich bod wedi ateb pob cwestiwn y dylech fod wedi'i ateb.
- Mae 12 tudalen i'r arolwg ac ni ddylai gymryd mwy na 15 munud i chi ei gwblhau.

## Gallu ieithyddol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C1.** | Ydych chi'n gallu **deall Cymraeg llafar**? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| **C2.** | Ydych chi'n gallu **siarad** Cymraeg? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| **C3.** | Ydych chi'n gallu **darllen** Cymraeg? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| **C4.** | Ydych chi'n gallu **ysgrifennu** Cymraeg? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |

Os ydych chi wedi ticio '**Nac ydw**' ar gyfer '**siarad Cymraeg**' does dim rhagor o gwestiynau i chi eu hateb, diolch i chi am gyfrannu. Anfonwch yr holiadur yn ôl yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda.

OS YDYCH YN **GALLU SIARAD CYMRAEG**:

### C5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?

*Ticiwch **un** yn unig*

- Rwy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ☐
- Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ☐
- Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg ☐
- Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig ☐

### C6. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i ddarllen yn Gymraeg?

Rwy'n gallu darllen a deall …

*Ticiwch **un** yn unig*

- y rhan fwyaf o bethau sydd wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg ☐
- cryn dipyn o bethau sydd wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg ☐
- brawddegau syml am bethau bob dydd ☐
- ychydig o eiriau ac ymadroddion syml yn unig ☐

Nid wyf yn gallu darllen yn Gymraeg ☐

### C7. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i ysgrifennu yn Gymraeg?

Rwy'n gallu ysgrifennu …

*Ticiwch **un** yn unig*

- yn Gymraeg ar gyfer y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ☐
- cryn dipyn o Gymraeg ☐
- brawddegau syml am bethau bob dydd ☐
- ychydig o eiriau ac ymadroddion yn unig ☐

Nid wyf yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg ☐

### C8. Pa mor hyderus ydych chi yn teimlo fel arfer wrth siarad Cymraeg?

*Ticiwch **un** yn unig*

- Hyderus iawn ☐
- Eithaf hyderus ☐
- Ddim yn hyderus iawn ☐
- Ddim yn hyderus o gwbl ☐

Nid wyf byth yn siarad Cymraeg ☐

SAMPLE

**C9. Pa iaith ydych chi'n teimlo fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Cymraeg ☐

Saesneg ☐

Yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith ☐

Iaith arall ☐

## Profiadau cynnar

**C10. Ym mha ran o Gymru oeddech chi'n byw pan oeddech chi'n blentyn?**

*Ticiwch **un** yn unig - os oedd mwy nag un ardal, ticiwch yr ardal lle gwnaethoch chi dreulio'r rhan fwyaf o'ch plentyndod*

1. Gwynedd neu Ynys Môn ☐
2. Conwy neu ogledd-ddwyrain Cymru ☐
3. Powys ☐
4. Sir Gaerfyrddin, Ceredigion neu Sir Benfro ☐
5. Abertawe, Castell-nedd Port Talbot neu dde-ddwyrain Cymru ☐

Nid oeddwn yn byw yng Nghymru pan oeddwn yn blentyn ☐




SAMPLE

**C11. Pryd wnaethoch chi ddechrau dysgu siarad Cymraeg?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Gartref, yn blentyn ifanc ☐

Mewn ysgol feithrin neu ddarpariaeth gofal plant (0-4 oed) ☐

Yn yr ysgol gynradd (5-11 oed) ☐

Yn yr ysgol uwchradd (11-18 oed) ☐ → Ewch i **C13**

Fel oedolyn ☐ → Ewch i **C12**

Arall ☐ → Ewch i **C13**

**C12. Os dysgoch chi'r Gymraeg fel oedolyn, sut wnaethoch chi ddysgu?**

*Ticiwch **bob** un sy'n berthnasol*

Ar gwrs dysgu Cymraeg a drefnais fy hun ☐

Ar gwrs dysgu Cymraeg a drefnwyd drwy'r gwaith ☐

Ar-lein (e.e. Drwy 'Duolingo' neu 'Say Something in Welsh') ☐

Ar gwrs prifysgol neu goleg (amser llawn/rhan amser) ☐

Gyda chymorth ffrindiau a/neu deulu ☐

Dull arall ☐

**C13. Ydych chi'n dysgu siarad Cymraeg ar hyn o bryd?** (h.y. wrthi'n astudio'n ffurfiol neu'n anffurfiol)

*Ticiwch **un** yn unig*

Ydw ☐

Nac ydw ☐

**C14. Pa mor dda oedd eich rhieni (neu eich gwarcheidwaid) yn gallu siarad Cymraeg pan oeddech chi'n blentyn?**

*Ticiwch **un** blwch ym mhob rhes*

| | Rhugl | Eithaf rhugl | Rhywfaint o Gymraeg | Dim Cymraeg | Ddim yn gwybod | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mam** (neu warcheidwad) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Tad** (neu warcheidwad) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C15. Pa iaith oeddech chi'n siarad â'ch rhieni (neu eich gwarcheidwaid) pan oeddech chi'n blentyn?**

*Ticiwch **un** blwch ym mhob rhes*

| | Cymraeg yn unig | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Saesneg yn unig | Iaith arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mam** (neu warcheidwad) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Tad** (neu warcheidwad) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C16. Beth oedd iaith eich cartref pan oeddech chi'n blentyn?**

*Ticiwch **un** yn unig*

| Cymraeg yn unig | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Saesneg yn unig | Iaith arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|

**C17. Beth oedd iaith eich addysg ym mhob un o'r canlynol...?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer pob cam*

| | Cymraeg yn unig | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Saesneg yn unig | Iaith arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol feithrin** (neu unrhyw ddarpariaeth gofal plant ffurfiol arall cyn mynd i'r ysgol gynradd) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Ysgol gynradd** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Ysgol uwchradd** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Addysg bellach** (e.e. coleg chweched dosbarth) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Addysg uwch** (e.e. prifysgol) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPL

## Defnyddio'r Gymraeg

**C18. Gan feddwl am y bobl yr ydych chi fel arfer yn siarad â nhw, faint o'r canlynol sy'n gallu siarad Cymraeg?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| | Pob un / y rhan fwyaf yn siarad Cymraeg | Mwy sy'n gallu siarad Cymraeg nag sydd ddim yn gallu | Tua hanner yn gallu siarad Cymraeg | Mwy sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg nag sy'n gallu | Dim / ychydig iawn yn gallu siarad Cymraeg | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| a) **Pobl sy'n byw gyda chi** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Teulu sydd ddim yn byw gyda chi** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Ffrindiau** (ac eithrio'r rhai sy'n byw gyda chi) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **Pobl yn eich cymuned leol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| e) **Cydweithwyr** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C19. Pa iaith ydych chi fel arfer yn siarad â'r canlynol?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Iaith arall | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) **Pobl sy'n byw gyda chi** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Teulu sydd ddim yn byw gyda chi** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Ffrindiau** (ac eithrio'r rhai sy'n byw gyda chi) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **Pobl yn eich cymuned leol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| e) **Cydweithwyr** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C20. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Bob dydd ........ ☐
Bob wythnos ........ ☐
Llai aml ........ ☐
Byth ........ ☐

SAMPL

**C21. Gan feddwl am y sgwrs ddiwethaf a gawsoch chi gyda rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith wnaethoch chi ei siarad?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Cymraeg ☐
Saesneg ☐
Iaith arall ☐

**C22. Tu allan i'r gwaith, pa mor aml ydych chi'n…**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i d) ar gyfer y ddwy iaith*

| | Cymraeg? | | | | Saesneg? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bob dydd | Bob wythnos | Llai aml | Byth | Bob dydd | Bob wythnos | Llai aml | Byth |
| a) **Darllen** (e.e. llyfrau, papurau newydd, cylchgronau, cynnwys ar-lein etc) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Ysgrifennu** (e.e. nodyn, rhestr, neges e-bost, adroddiad) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Gwylio'r teledu, fideos neu glipiau ar-lein** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **Gwrando ar gerddoriaeth neu radio** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C23. Pa ieithoedd ydych chi'n eu defnyddio fel arfer i...?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Iaith arall | Ddim yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) **Anfon neges destun at ffrind sy'n gallu siarad Cymraeg** (neu anfon neges uniongyrchol debyg, IM, WhatsApp etc.) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Anfon e-bost at ffrind sy'n gallu siarad Cymraeg** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Gwneud sylwadau neu bostio statws ar Facebook** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **Postio neu ymateb i negeseuon trydar ar Twitter** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| e) **Ar fathau eraill o gyfryngau cymdeithasol** (e.e. Instagram, Snapchat, Pinterest, LinkedIn, Tumblr) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPLE

## Gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol

**C24. Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi mynd i unrhyw un o'r digwyddiadau neu'r gweithgareddau canlynol a gafodd eu cynnal naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg?**

*Ticiwch **bob un sy'n berthnasol** ar gyfer pob rhes o a) i i)*

| | Ydw – wedi ei gynnal yn Gymraeg | Ydw – wedi ei gynnal yn y **ddwy iaith - Cymraeg a Saesneg** | Ydw – wedi ei gynnal yn Saesneg | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| a) **Drama, sioe theatr neu bantomeim** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Cyngerdd côr, gig neu fand byw** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Gŵyl / Eisteddfod** (e.e. gŵyl gelfyddydol, gŵyl lenyddol, gŵyl fwyd neu sioe amaethyddol) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **Noson gomedi** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| e) **Digwyddiad cymunedol** (e.e. cwis tafarn, helfa drysor, cinio, dawns) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| f) **Grŵp crefyddol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| g) **Dosbarth, grŵp neu gwrs chwaraeon/hamdden** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| h) **Grŵp cymunedol** (e.e. grŵp rhiant a phlentyn, côr, clwb llyfrau) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| i) **Cyfarfod neu fforwm cyhoeddus** (e.e. cyfarfodydd cyngor/cymdeithas preswylwyr) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C25. Sut ydych chi'n cael gwybod am ddigwyddiadau neu weithgareddau a drefnir ac sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg yn eich ardal?**

*Ticiwch **bob** un sy'n berthnasol*

- Papur lleol ☐
- Posteri ☐
- Cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook/Twitter) ☐
- Drwy siarad ag eraill ☐
- Newyddlenni ☐
- Cyhoeddiadau (e.e. yn y capel, grwpiau cymunedol neu ddigwyddiadau eraill) ☐
- E-bost ☐
- Nid wyf yn cael gwybod ☐
- Arall (nodwch) ☐

SAMPL

## Defnyddio'r Gymraeg â gwasanaethau

**C26. Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, sut wnaethoch chi gysylltu â'r gwasanaethau canlynol, os o gwbl?**

(Peidiwch â chynnwys pori ar eu gwefan yn unig)

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| Os oedd mwy nag un cyswllt meddyliwch am eich profiad mwyaf diweddar yn unig | Wyneb yn wyneb | Dros y ffôn | Drwy lythyr, e-bost neu ffurflen ar-lein | Heb gysylltu â'r gwasanaeth hwn yn y flwyddyn ddiwethaf |
|---|---|---|---|---|
| **a) Awdurdod lleol** (eich cyngor) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b) Meddygfa neu ysbyty** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c) Cwmni ffôn/rhyngrwyd/ffôn symudol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d) Darparwr nwy, trydan neu ddŵr** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **e) Banc/cymdeithas adeiladu** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C27. Gan feddwl am y tro diwethaf i chi gysylltu â'r gwasanaethau, a gawsoch chi wasanaeth cwsmer Cymraeg?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| | Do, cefais ei gynnig | Do, ond roedd rhaid i mi ofyn amdano | Naddo, ond cefais ei gynnig | Naddo, ni chefais ei gynnig | Heb gysylltu â'r gwasanaeth hwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **a) Awdurdod lleol** (eich cyngor) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b) Meddygfa neu ysbyty** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c) Cwmni ffôn / rhyngrwyd / ffôn symudol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d) Darparwr nwy, trydan neu ddŵr** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **e) Banc / cymdeithas adeiladu** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C28. Weithiau mae gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwisgo'r logo oren hwn i ddatgan i'w cwsmeriaid ac eraill eu bod yn gallu siarad Cymraeg.**

**Oeddech chi'n ymwybodol o'r logo hwn a'i ystyr cyn heddiw?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Oeddwn ☐

Wedi gweld y logo o'r blaen, ond ddim yn siŵr beth oedd yn ei olygu ☐

Nac oeddwn ☐

SAMPL

**C29. Pan fydd gwasanaethau ar gael i chi yn Gymraeg ac yn Saesneg, pa iaith fyddwch chi'n ei dewis fel arfer...?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Iaith arall | Ddim yn defnyddio /gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) **i gael arian o dwll yn y wal** *(cashpoint)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **ar wefannau gwasanaethau cyhoeddus** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **ar beiriant talu hunan-wasanaeth** *(self-service checkout)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **i lenwi ffurflenni swyddogol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| e) **i siarad â staff sy'n ei gwneud yn amlwg eu bod yn gallu siarad Cymraeg** (e.e. drwy wisgo'r bathodyn oren) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C30. Yn eich ymateb i C29 uchod, a wnaethoch chi ddewis 'Saesneg yn bennaf' neu 'Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg' ar gyfer unrhyw un o'ch ymatebion?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Do ☐ → Ewch i **C31**

Naddo ☐ → Ewch i **C32**

**C31. Beth yw eich rheswm dros ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn Saesneg?**

*Ticiwch **bob** un sy'n berthnasol*

- Mae'r Gymraeg yn gallu bod yn rhy ffurfiol neu dechnegol ☐
- Rwy'n poeni nad yw fy Nghymraeg i'n ddigon da ☐
- Rwyf wedi cael profiad gwael o ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg yn y gorffennol ☐
- Mae'n arbed gwaith i bawb os rwy'n defnyddio Saesneg ☐
- Nid yw'r rhai sydd gyda fi yn siarad Cymraeg ☐
- Rwy'n pryderu na fydd y gwasanaeth mor gyflym ☐
- Mae'n well gen i ddefnyddio Saesneg ar gyfer y gwasanaethau hyn ☐
- Arall (nodwch) ☐

SAMPL

## Y Gymraeg yn y gwaith

### C32. Ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd?

*Ticiwch **un** yn unig*

Ydw ☐ → Ewch i **C33**

Nac ydw ☐ → Ewch i **C42**

### C33. Faint o weithwyr sy'n gweithio i'ch cyflogwr, gan gynnwys lleoliadau a changhennau eraill?

Os nad ydych yn siŵr, rhowch amcangyfrif o'r dewisiadau isod

*Ticiwch **un** yn unig*

1 - 10 ☐

11 - 49 ☐

50 - 249 ☐

250 + ☐

### C34. Ym mha sector ydych chi'n gweithio?

*Ticiwch **un** yn unig*

Sector cyhoeddus ☐

Sector preifat ☐

Sector gwirfoddol/trydydd sector ☐

Ddim yn gwybod ☐

### C35. Yn y gwaith, ydych chi'n...?

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i e)*

| | Ydw, bob amser | Ydw, fel arfer | Ydw, weithiau | Nac ydw | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| a) **Siarad Cymraeg â chydweithwyr <u>am y gwaith</u>** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Siarad Cymraeg â chydweithwyr am bethau sydd <u>ddim yn ymwneud a'r gwaith</u>** (sgwrsio'n anffurfiol) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Siarad Cymraeg â chwsmeriaid neu bobl o'r tu allan i'ch cwmni/sefydliad** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| d) **Darllen unrhyw beth yn Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| e) **Ysgrifennu unrhyw beth yn Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

### C36. Yn y gwaith, a oes unrhyw feddalwedd cyfrifiadurol ar gael i chi ei ddefnyddio, os ydych yn ei ddefnyddio ai peidio?

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) i c)*

| | Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod/ ddim yn defnyddio cyfrifiadur yn y gwaith |
|---|---|---|---|
| a) **Gwiriwr sillafu/gramadeg y Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) **Offer cyfieithu i'r Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☐ |
| c) **Rhyngwyneb Cymraeg** (e.e. dewislen Microsoft Office/Windows yn Gymraeg) | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPL

**C37. Ydy'ch cyflogwr wedi cynnig rhywbeth i chi i'w wisgo i ddangos eich bod yn gallu siarad Cymraeg?** (e.e. bathodyn â'r logo oren 'Cymraeg')

*Ticiwch **un** yn unig*

Ydy ☐

Nac ydy ☐

Ddim yn gwybod ☐

**C38. Ydy eich cyflogwr yn cynnig hyfforddiant neu gymorth i chi wneud unrhyw un o'r canlynol?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer a) a b)*

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod /amherthnasol |
|---|---|---|---|
| **a) Gwella eich Cymraeg** | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b) Datblygu sgiliau penodol yn Gymraeg** (e.e. ateb ffôn, cyfieithu) | ☐ | ☐ | ☐ |

**C39. Ydy'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg wedi ei gynnwys yn eich swydd ddisgrifiad neu fanyleb swydd?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Ydy - mae'n 'hanfodol' ☐

Ydy - mae'n 'ddymunol' ☐

Nac ydy ☐

Ddim yn gwybod ☐

**C40. Pa un o'r datganiadau hyn, yn eich tyb chi, sy'n disgrifio orau agwedd eich cyflogwr tuag at y Gymraeg?**

**Cofiwch, bydd eich atebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol**

*Ticiwch **un** yn unig*

Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol ☐

Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol ☐

Ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg ☐

Dim un o'r rhain ☐

Rwyf yn hunangyflogedig ☐

Ddim yn gwybod ☐

**C41. Yn eich barn chi, faint o'r bobl sy'n gweithio gyda chi fel arfer sy'n gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

*Ticiwch **un** yn unig*

Pob un neu bron pob un yn gefnogol ☐

Y rhan fwyaf ohonynt yn gefnogol ☐

Tua hanner yn gefnogol, hanner ddim ☐

Y rhan fwyaf ohonynt ddim yn gefnogol ☐

Pob un neu bron pob un ddim yn gefnogol ☐

Ddim yn gwybod/amherthnasol ☐

SAMPL

# Eich barn am y Gymraeg

**C42. Isod, ceir rhai datganiadau y byddai rhai yn eu dweud efallai am y Gymraeg. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau?**

*Ticiwch **un** blwch ar gyfer pob datganiad*

| | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae siarad Cymraeg yn rhan bwysig o bwy ydw i | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Mae gen i ddigonedd o gyfleoedd i siarad Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Fyddwn i ddim yn mynd allan o'm ffordd i ofyn am wasanaeth yn y Gymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Dylai siaradwyr Cymraeg drosglwyddo'r iaith i'w plant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Os oes gan nwyddau enwau neu frandio Cymraeg, rwy'n fwy tebygol o'u prynu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |

# Diwedd yr holiadur

Diolch i chi am lenwi'r holiadur

**A wnewch chi ei anfon yn ôl yn yr amlen radbost a ddarparwyd neu at:**

Rhadbost RTKS-SKES-LXEL
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Caerdydd
CASNEWYDD
NP10 8XG

SAMPLE